STATUTORY INSTRUMENTS

1965 No. 717

REPRESENTATION OF THE PEOPLE

The Elections (Welsh Forms) Regulations 1965

Made - - - - 30*th March* 1965
Coming into Operation 8*th April* 1965

In pursuance of the powers conferred on me by section 1(1) of the Elections (Welsh Forms) Act 1964(a), I hereby make the following Regulations:—

1. Each of the forms set out in the Schedule to these Regulations is hereby prescribed as the translation into the Welsh language of the corresponding form specified in the English language at the head of the translation, being a form set out in a Schedule to the Representation of the People Act 1949(b) or prescribed by rules or regulations made under that Act.

2. These Regulations may be cited as the Elections (Welsh Forms) Regulations 1965 and shall come into operation on 8th April 1965.

Frank Soskice,
One of Her Majesty's Principal Secretaries of State.

Home Office,
Whitehall.
30th March 1965.

Regulation 1

SCHEDULE

ARRANGEMENT OF TRANSLATIONS

Translation number	Form translated
	Schedule 1 *to the Representation of the People Regulations* 1950(c) *as amended*(d)
1	Form A: Return by occupier as to residents.
2	Form B: Return by occupier of land or premises.
3	Form D: Proxy paper.
4	Form O: Form of claim.
5	Form P: Form of objection.
6	Form Q: Application to be treated as an absent voter for an indefinite period owing to occupation or physical incapacity.
7	Form R: Application to be treated as an absent voter owing to change of residence.
8	Form S: Application to be treated as an absent voter for a particular election.
9	Form U: Application for appointment of proxy.

(a) 1964 c. 31. (b) 12, 13 & 14 Geo. 6. c. 68.
(c) S.I. 1950/1254 (Rev. XX, p. 7: 1950 II, p. 513).
(d) The amending instrument is S.I. 1954/498 (1954 II, p. 1921).

Translation number	Form translated
	The local elections rules in Schedule 2 to the Representation of the People Act 1949
10	Questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper at an election of a county councillor (rule 31(*a*)).
11	Questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper at an election of a borough councillor (rule 31(*b*)).
12	Questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper at an election of a county councillor or borough councillor (rule 31(*c*)).
	The Appendix in Schedule 2 to the Representation of the People Act 1949
13	Declaration to be made by the companion of a blind voter at a local government election (counties and boroughs).
	Schedule 1 to the County and Borough Election Forms Regulations 1951(**a**)
14	Form B: Nomination paper (counties).
	Schedule 2 to the County and Borough Election Forms Regulations 1951
15	Form B: Nomination paper (boroughs and elective auditors).
	The election rules in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951(**b**)
16	Declaration of secrecy (rule 27(4)).
17	Questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper (rule 31(1)(*a*)).
18	Questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper (rule 31(1)(*b*)).
	Appendix in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951
19	Nomination paper.
20	Declaration to be made by the companion of a blind voter.
	The election rules in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951(**c**)
21	Declaration of secrecy (rule 26(4)).
22	Questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper (rule 30(1)(*a*)).
23	Questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper (rule 30(1)(*b*)).

(**a**) S.I. 1951/264 (1951 II, p. 350). (**b**) S.I. 1951/267 (1951 II, p. 385).
(**c**) S.I. 1951/266 (1951 II, p. 361).

Translation number	Form translated
	Appendix in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951
24	Nomination paper.
25	Declaration to be made by the companion of a blind voter.
	The election rules in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952(a)
26	Declaration of secrecy (rule 26(4)).
27	Questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper (rule 30(1)(*a*)).
28	Questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper (rule 30(1)(*b*)).
	Appendix in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952
29	Nomination paper.
30	Declaration to be made by the companion of a blind voter.

1

Translation of Form A (return by occupier as to residents) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950 as amended

ATEB GAN DDEILIAD-TŶ YNGLŶN Â PHRESWYLWYR

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

RHESTR ETHOLWYR, 19

(Dyddiad yr etholfraint: Hydref, 10fed, 19 ; y rhestr mewn grym am ddeuddeng mis o Chwefror 16eg, 19)

At y deiliad-tŷ,

Er mwyn darparu rhestr etholwyr ar gyfer etholiadau seneddol a llywodraeth leol am 19 , gofynnir ichwi lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon ataf fi *yn ddi-oed.* Y mae'r ffurflen hon yn holi ynglŷn â phersonau a fydd yn preswylio ar Hydref 10fed, 19 , *ond llenwch hi ar unwaith ar ôl ichwi ei derbyn, os gwelwch yn dda.* Os digwydd i'r ffurflen hon gael ei llenwi cyn Hydref 10fed, cofiwch gynnwys enw pwy bynnag y disgwylir iddo fod gyda chwi yn preswylio erbyn y dyddiad hwnnw, a pheidio ag enwi'r rhai na fyddant gyda chwi yn breswylwyr erbyn hynny.

Mae'r ateb hwn yn ofynnol yn ôl y gyfraith

Dyddiad..... .....

Swyddog Cofrestru Etholiadol

Gofynnir ichwi yn garedig ddarllen y nodiadau dros y ddalen yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen

(a) S.I. 1952/91 (1952 III, p. 2795).

ADRAN 1. MANYLION AM YR ADEILAD

Rhif y fflat (lle bo rhif)	Rhif y tŷ (neu'r enw os heb rif)	Enw'r Stryd neu'r Heol	Plwyf, neu Dref neu Ranbarth Post

A oes rhywrai sydd â lle i fyw ar wahân yn eich tŷ chwi (neu'ch fflat) ac sydd heb eu henwi yn yr ateb uchod?

(Oes neu Nac oes).....

ADRAN 2. MANYLION AM BRESWYLWYR

Rhowch wybod isod fanylion am bob deiliad Prydeinig neu ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon (dyn neu fenyw) sydd fel arfer yn preswylio yn yr adeilad a nodir uchod ar Hydref 10fed, 19 , hyd yn oed os byddant oddi cartref dros dro ar y dyddiad hwnnw, ac sydd yn *21ain OED* neu drosodd ar Fehefin 15fed, 19 . Onid oes neb, nodwch hynny. *PEIDIWCH* â chynnwys enw unrhyw berson a chanddo gymhwyster fel pleidleisiwr lluyddol (gweler nodiadau 2, 3, 4 a 5).

Cyfenw, ynghyda Dynodiant neu Deitl (Mr, Mrs, etc.) (Gweler nodiad 6) LLYTHYREN FAWR: Rhowch enw'r deiliad-tŷ yn gyntaf	Enwau bedydd neu enwau blaen eraill (LLYTHYREN FAWR)	Rhowch " Dros 21 ", neu os yn 21ain ar ôl Hydref 11eg, 19 , ac ar neu cyn Mehefin 16eg, 19 , rhowch ddyddiad y geni. (*Gweler* nodiad 4)	Os morwr (heb fod yn y Llynges) rhowch M.S. (Gweler nodiad 7)

Yr wyf trwy hyn o weithred yn datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod—

(*a*) y manylion a roddir yn Adrannau 1 a 2 o'r ateb hwn yn wir ac yn gywir,

(*b*) pob un o'r personau a enwir yn Adran 2 yn ddeiliaid Prydeinig neu yn ddinasyddion o Weriniaeth Iwerddon a'u bod yn 21ain OED neu drosodd ar Fehefin 15fed, 19 .

Dyddiad..... Llofnod.....

NODIADAU

1. Os gofynnwch i'r swyddog cofrestru etholiadau cewch bob cymorth angenrheidiol ganddo i lenwi'r ffurflen.

2. Wrth benderfynu enwau pwy y dylech eu cynnwys yn yr ateb hwn, peidiwch ag ystyried yn unig y rhai hynny a fydd yn bresennol ar ddyddiad yr etholfraint; efallai y bydd eraill sydd yn breswylwyr er eu bod oddi cartref. Gellir ystyried ar y cyfan fod person yn preswylio mewn tŷ os bydd fel arfer yn byw yno; felly dylid cynnwys enw'r cyfryw berson er ei fod oddi cartref dros dro, er enghraifft, fel myfyriwr, neu ar wyliau neu ar daith yn ymweld, neu mewn ysbyty. Ar y llaw arall, y mae'n bosibl nad preswylwyr fydd rhai o'r rheiny a fydd yn bresennol; er enghraifft, ni ddylid cynnwys enw gwestai neu ymwelydd sydd fel arfer yn byw mewn man arall.

A chofio hyn dylech gynnwys enw pob un o'r preswylwyr, ai yn aelodau o'ch teulu, yn weision preswyl, neu yn lletywyr neu'n fyrddwyr.

Dylid cynnwys enw unrhyw berson (gan gynnwys y deiliad-tŷ) sydd fel arfer yn preswylio ond sydd wedi ei drosglwyddo i weithio oddi cartref os na fydd oddi cartref am fwy na chwe mis ar eu hyd.

3. Y mae hawl gan berson sydd â phreswylfod mewn mwy nag un etholaeth i'w gofrestru ymhob un ohonynt, ond y mae'n drosedd yn erbyn y gyfraith i bleidleisio fwy nag unwaith mewn etholiad.

4. Bydd hawl gan y sawl a gaiff ei ben-blwydd yn 21ain oed ar ôl Hydref 11eg, 19 , ac ar Fehefin 16eg, 19 , neu cyn hynny, i bleidleisio yn yr etholiadau a gynhelir ar ôl Hydref 1af, 19 . (Y mae person yn cyrraedd ei oedran llawn *ar y diwrnod o flaen* ei ben-blwydd yn 21ain oed).

5. Ni ddylid rhoi manylion am bersonau sydd yn aelodau o'r Lluoedd Arfog; fe fydd eu henwau wedi eu cynnwys ar restr yr etholwyr os byddant wedi gwneud y datganiad sy'n ofynnol yn y Lluoedd (mae modd cael y ffurflen at y datganiad hwn oddi fewn i'r llu neu'r adran briodol) ac wedi ei anfon at y swyddog cofrestru etholiadol.

Y mae gan berson etholfraint luyddol os ydyw yn gwasanaethu fel aelod o luoedd Ei Mawrhydi, *ac eithrio'r Cefnlu neu luoedd cynorthwyol*, neu os ydyw yn gweithio yng ngwasanaeth y Goron tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, neu os ydyw yn wraig i'r cyfryw berson ac yn preswylio tu allan i'r Deyrnas Gyfunol er mwyn bod gyda'i gŵr.

6. Y mae hawl gan bendefig i'w gofrestru fel preswylydd gogyfer ag etholiadau llywodraeth leol yn unig.

7. Y mae hawl gan forwr sy'n debyg o fod ar y môr ar adeg etholiad i benodi dirprwy i bleidleisio drosto. Anfonir ffurflen i'r diben hwn at unrhyw berson y dodwch " M.S. " gyferbyn â'i enw onid oes dirprwy eisoes wedi ei benodi drosto.

8. Os bydd unrhyw berson am ryw reswm arall yn debyg o fethu mynd ei hun i'r orsaf bleidleisio ar adeg etholiad, fe all fod ganddo hawl i bleidleisio trwy'r post. Wedi iddo gael gwybod am yr amgylchiadau, bydd y swyddog cofrestru etholiadol yn barod i roi ffurflen i wneud cais. Peidiwch ag oedi hyd adeg etholiad cyn gwneud cais neu efallai y byddwch yn rhy ddiweddar.

2

Translation of Form B (return by occupier of land or premises) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950 as amended

ATEB GAN DDEILIAD TIR NEU ADEILAD

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

RHESTR ETHOLWYR, 19

(Dyddiad yr etholfraint: Hydref 10fed, 19 ; y rhestr yn dal mewn grym am ddeuddeng mis o Chwefror 16eg, 19)

At y deiliad,

Er mwyn darparu rhestr etholwyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol am 19 (*gweler* nodiad 1) gofynnir ichwi lenwi'r ffurflen hon ynglŷn â dal tir neu adeilad *heblaw'r tŷ sy'n gartref ichwi* a'i anfon ataf fi *yn ddi-oed.*

Mae'r ateb hwn yn ofynnol yn ôl y gyfraith

Dyddiad..... .....

Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Noder—Dylai'r ateb hwn sôn am yr amgylchiadau fel y byddant ar Hydref 10fed, 19 ond llenwch y ffurflen pryd y derbynnir hi os gwelwch yn dda. Os digwydd ichwi wneud hynny cyn Hydref 10fed, dylech roi yn Adran 5 enw pwy bynnag y disgwylir iddo fod yno yn breswylydd erbyn y dyddiad hwnnw, a pheidio ag enwi'r rhai na fyddant yno yn breswylwyr erbyn hynny.

Os cwmni yw'r deiliad-tŷ, neu gorfforaeth gyhoeddus, neu rywbeth o'r fath (*gweler* Nodiad 2), rhaid llenwi'r ffurflen ac eithrio Rhan 3. Ymhob achos arall rhaid rhoi'r wybodaeth ofynnol *i gyd.*

Gofynnir ichwi hefyd yn garedig ddarllen y nodiadau'n ofalus cyn llenwi'r ffurflen.

	Rhif, enw neu ddisgrifiad	Enw'r Stryd neu'r Heol	Tref, Plwyf neu Ranbarth Post
1. Cyfeiriad post llawn y tir neu'r adeilad a ddelir			

2. Rhowch y fan yma'r manylion am y deiliaid neu am bob cyd-ddeiliad (er enghraifft, partneriaid). Os cwmni neu gorfforaeth gyhoeddus, etc., ydyw, rhowch ei enw neu'i deitl yn unig.

Cyfenw (LLYTHYREN FAWR)	Enwau Bedydd neu enwau blaen eraill ynghyda "Mr" neu "Mrs" etc. (LLYTHYREN FAWR)	Pa un a yw'n ddeiliad Prydeinig neu'n ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu beidio ar Hydref 10fed, 19	Rhowch "Dros 21", neu os cyrhaeddir 21ain ar ôl Hydref 11eg rhowch y dyddiad	Pa un a fyddir yn preswylio yn yr adeilad ar Hydref 10fed fel perchennog neu fel tenant	PRESWYL PREIFAT ar Hydref 10fed, 19 . (Rhowch y cyfeiriad post llawn)	Pa un a feddiennir unrhyw adeilad arall yn y sir/fwrdeisdref sirol ar Hydref 10fed, 19 . Os felly, rhowch gyfeiriad post pob adeilad o'r fath yn llawn
		(Ydyw neu Nac ydyw)		(Byddir neu Na Fyddir)		

3. A yw'r adeilad yn drethol? (Ydyw neu Nac ydyw).....

   Os trethir ar wahân, rhowch y gwerth trethol cyfanrif i ddibenion treth.....

   Os heb ei drethu ar wahân, eithr ynghydag eiddo arall, dynodwch yr eiddo arall a rhowch y gwerth cyfanrif i ddibenion treth } .....

4. Rhowch enwau is-denantiaid. (Onid oes rhai, dywedwch hynny.).....

5. Rhowch fanylion isod am bob deiliad Prydeinig neu ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon (dyn neu fenyw) SY'N ARFER PRESWYLIO yn yr adeilad (e.e., gofalwr preswyl) ar Hydref 10fed, 19 , ac yn 21 ain oed neu drosodd ar Fehefin 15fed, 19 . *Peidiwch â chynnwys* gweithwyr cyflog sy'n byw mewn man arall na neb sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi ac eithrio'r Cefnlu neu luoedd cynorthwyol.

Cyfenw (LLYTHYREN FAWR)	Enwau bedydd neu enwau blaen eraill ynghyda "Mr" neu "Mrs" etc. (LLYTHYREN FAWR)	Rhowch "Dros 21", neu os cyrhaeddir 21 ar ôl Hydref 10fed, 19 , ac ar neu cyn Mehefin 16eg, 19 , rhowch y dyddiad

Datganaf drwy hyn o weithred—

(*a*) fod y wybodaeth a roir yn yr atebiad hwn, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, yn wir ac yn gywir;

(*b*) fod pob un o'r personau a enwir yn Adran 5 yn ddeiliaid Prydeinig neu'n ddinasyddion o Weriniaeth Iwerddon a'u bod yn 21ain oed neu drosodd ar Fehefin 15fed, 19 .

Llofnod .....

Dyddiad..... Swydd y llofnodydd.....
(Os dros gwmni etc. y llofnodir)

NODIADAU

1. Y mae unrhyw ddeiliad Prydeinig neu ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon o oedran llawn (*gweler* Nodiad 5) a fydd ar ddyddiad yr etholfraint yn meddiannu, fel perchennog neu denant, dir neu adeilad trethol o werth blynyddol heb fod yn llai na £10, a hawl ganddo i gael ei gofrestru ynglŷn â llywodraeth leol fel etholwr di-breswyl. Ond nid oes ganddo hawl i gael ei gofrestru fwy nag unwaith mewn unrhyw ranbarth llywodraeth leol (hynny yw, unrhyw sir neu fwrdeisdref neu ddosbarth trefol neu wledig neu blwyf) i ddibenion etholiadau ar gyfer cyngor y rhanbarth. Ac yn sicr ddigon, os yw'r hawl ganddo i gael ei gofrestru'n etholwr preswyl, ni all fod hawl ganddo i gael ei gofrestru'n etholwr di-breswyl ar gyfer etholiadau yn yr un rhanbarth.

2. Os bydd cwmni neu gorfforaeth gyhoeddus neu rywbeth o'r fath yn meddiannu adeilad, ni rydd hynny'r hawl i'r swyddogion neu'r aelodau fel y cyfryw i gael eu cofrestru.

3. Y mae'r gair *premises* nid yn unig yn golygu adeilad; fe all olygu darn o dir hefyd. Nid yw meddiant ar dir amaethyddol (tir nad yw'n drethol) yn rhoi hawl i'r sawl sy'n ei feddiannu gael ei gofrestru.

4. Os na bydd gwerth blynyddol yr eiddo o leiaf yn £10, a lle bo cydfeddiannu, yn werth £10 yn enw pob un o'r cydfeddianwyr, ni fydd ganddynt hawl i gael eu cofrestru.

5. Fe fydd person a gaiff ei ben-blwydd yn 21ain oed ar ôl Hydref 11eg, 19 ac ar Fehefin 16eg 19 neu cyn hynny, a hawl ganddo i bleidleisio mewn etholiadau a gynhelir ar ôl Hydref laf, 19 . (Y mae person yn cyrraedd ei oedran llawn *ar y diwrnod o flaen* ei ben-blwydd yn 21ain.)

3

Translation of Form D (proxy paper) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950

PAPUR DIRPRWY

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Etholaeth .....

Dosbarth Pleidleisio .....

Ardal(oedd) etholiadol llywodraeth leol.....

(Enw'r dirprwy).....

(Cyfeiriad).....

Y mae'r sawl a enwir uchod yn cael ei benodi drwy hyn o weithred yn ddirprwy ar ran

(Enw'r etholwr) .....

yr hwn sydd a'r cymwysterau i gael ei gofrestru'n *bleidleisiwr lluyddol / breswylydd perthynol i

* Dylid dileu y rhan sy'n amherthnasol.

(Y cyfeiriad y mae wedi ei gofrestru o'i blegid).....

er mwyn iddo bleidleisio drosto/drosti—

*yn yr etholiad seneddol ynglŷn â'r etholaeth uchod ar.....

*mewn unrhyw etholiad ynglŷn â'r etholaeth seneddol uchod neu ardal (oedd) etholiadol ar gyfer llywodraeth leol (*gweler* nodiad l)

Ni ddaw'r penodiad hwn i fod yn ddirprwy i weithredu'n gyfreithiol tan .....

.....

Swyddog Cofrestru Etholiadol

Cyfeiriad.....

Dyddiad.....

NODIADAU

1. Os ar gyfer etholiad seneddol arbennig yr ydych wedi'ch penodi'n ddirprwy, yn yr etholiad hwnnw yn unig y bydd gennych hawl i weithredu fel dirprwy. Yn y mathau eraill o fod yn ddirprwy fe bery'r hawl i weithredu mewn grym hyd nes bod y swyddog cofrestru'n rhoi ar ddeall ichwi fod yr hawl wedi peidio (e.e., am fod yr etholwr wedi diddymu penodiad).

Os yw'n ymddangos ar y ffurflen fod yr etholwr heb fynd o'i breswylfod, fe ddeil eich penodiad i weithredu'n gyfreithiol o'r dyddiad a roir uchod at bob etholiad seneddol a phob etholiad llywodraeth leol perthynol i'r etholaeth a'r rhanbarthau llywodraeth leol a ddynodir uchod, ond ni weithreda mewn etholiadau dosbarth gwledig a chyngor plwyf.

Os yw'n ymddangos ar y ffurflen mai etholwr lluyddol yw'r etholwr, fel ddeil eich penodiad i weithredu'n gyfreithiol o'r dyddiad a roir uchod at bob etholiad seneddol a phob etholiad llywodraeth leol perthynol i'r etholaeth a'r rhanbarthau llywodraeth leol a ddynodir uchod (gan gynnwys etholiadau dosbarth gwledig a chyngor plwyf) os na by dd yr etholwr yn gofyn am gael pleidleisio drwy'r post mewn etholiad seneddol arbennig. Os gwna hyn fe ddirymir eich penodiad at yr un etholiad hwnnw a rhoir gwybod ichwi am hynny.

2. I bleidleisio fel dirprwy rhaid ichwi fynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio berthynol i'r cyfeiriad y mae'r etholwr wedi ei gofrestru ar ei gyfer, ond er

hynny, y mae modd ichwi ofyn am gael pleidleisio fel dirprwy drwy'r post os etholwr lluyddol yw'r etholwr, a hefyd os ydych yn cyflawni'r naill neu'r llall o'r amodau hyn, sef,

(*a*) fod gennych hawl i anfon eich pleidlais eich hunan drwy'r post mewn etholiadau seneddol yn yr un etholaeth neu mewn etholiadau llywodraeth leol yn yr un rhanbarth etholiadol; neu

(*b*) ynglŷn ag etholiadau seneddol yn unig, fod eich cyfeiriad chwi heb fod yn yr un ardal â'r cyfeiriad y mae'r etholwr lluyddol wedi ei gofrestru ar ei gyfer, hynny yw, heb fod yn yr un fwrdeisdref, neu'r un dosbarth trefol neu'r un plwyf gwledig.

Rhaid defnyddio Ffurflen R.P.F.11 i ofyn am gael pleidleisio fel dirprwy drwy'r post. Fe ellir cael y ffurflen hon gan y swyddog cofrestru etholiadol.

4

Translation of Form O (form of claim) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950 as amended

FFURFLEN CAIS

Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl

(Os anfonir y ffurflen hon at y swyddog cofrestru trwy'r post, rhaid talu am y cludiad ymlaen llaw.)

Etholaeth.....

At y swyddog cofrestru—

Yr achosion i gyd	1. Enwau'r hawlydd yn llawn	Cyfenw ynghyda dynodiant neu deitl (Mr., Mrs., neu Miss, etc.)..... Enwau eraill.....
	2. Cyfeiriad post llawn yr adeilad (neu'r tir) y mae'r hawlydd yn mynnu ei gofrestru o'i blegid.	Rhif (os oes un)..... Enw (os heb rif)..... Stryd neu Heol..... Tref, plwyf neu ranbarth post .....
	3. (*a*) A oedd yr hawlydd yn 21ain oed neu drosodd ar ddyddiad yr etholfraint?* (*b*) Os nad oedd, rhowch ddyddiad y geni.	(*a*) Oedd neu Nac oedd..... (*b*) .....
Cais hawlydd i'w gofrestru fel pleidleisiwr preswyl neu luyddol†	4. (*a*) A oedd yr hawlydd yn preswylio yn y cyfeiriad a nodir ar ddyddiad yr etholfraint?* neu (*b*) A oedd yr hawlydd wedi gwneud datganiad lluyddol erbyn y dyddiad hwnnw?	(*a*) (Oedd neu Nac oedd) (*b*) (Oedd neu Nac oedd)

CAIS I'W GOFRESTRU GAN HAWLYDD DI-BRESWYL†	5. (*a*) A oedd yr hawlydd yn meddiannu'r adeilad (neu'r tir) uchod, fel perchennog neu denant, ar ddyddiad yr etholfraint?*	(*a*) (Oedd neu Nac oedd)
	(*b*) Lle bo cyd-feddiannu ynglŷn â'r adeilad (neu'r tir) rhodder nifer y cyd-feddianwyr.	(*b*)
	6. (*a*) A ydyw'r adeilad (neu'r tir) yn drethol?	(*a*) (Ydyw neu Nac ydyw)
	(*b*) Os ydyw, rhodder gwerth trethol cyfanrif yr adeilad (neu'r tir).	(*b*)
	7. Rhodder cyfeiriad post llawn preswylfod yr hawlydd ar ddyddiad yr etholfraint.*	
	8. A oedd yr hawlydd yn meddiannu unrhyw adeilad (neu dir) arall yn y sir/fwrdeisdref sirol ar ddyddiad yr etholfraint?* Os oedd, rhodder cyfeiriad post llawn pob adeilad neu dir o'r fath.	
LLE BO'N BRIODOL	9. Os ar gyfer rhyw etholiadau llywodraeth leol arbennig yn unig yr hawlir yr etholfraint, noder pa rai.	

DATGANIAD

Y mae'r manylion uchod yn wir ac yn gywir ymhob modd. Y mae'r hawlydd yn ddeiliad Prydeinig neu yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon; a hawlia'r bleidlais seneddol a/neu'r bleidlais llywodraeth leol a haedda yn rhinwedd y manylion hynny.

Llofnod yr hawlydd neu'r sawl sy'n gwneud y cais ar ei ran

.....

Cyfeiriad y sawl sy'n gwneud y cais (os nad yr hawlydd ei hun sy'n ei wneud).

.....

Dyddiad.....

---

* Dyddiad yr etholfraint oedd Hydref 10fed.

† Dyma'r cymwysterau at gael cofrestru—

(*a*) er mwyn bod yn etholwyr seneddol a llywodraeth leol, preswylfod ar ddyddiad yr etholfraint; rhaid bod etholwr lluyddol wedi gwneud datganiad lluyddol ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny;

(*b*) er mwyn bod yn etholwyr llywodraeth leol yn unig, bod yn ddeiliad ar ddyddiad yr etholfraint, fel perchennog neu denant, i dir neu adeilad trethol heb fod yn llai na £10 o ran gwerth blynyddol (neu £10 bob un o'r cyd-ddeiliaid lle bo cyd-ddaliadaeth).

Ond nid oes hawl gan unrhyw berson i gael ei gofrestru fwy nag unwaith mewn unrhyw ranbarth llywodraeth leol (hynny yw, unrhyw sir, bwrdeisdref, dosbarth trefol neu wledig neu blwyf) i ddibenion etholiadau ar gyfer cyngor y rhanbarth. Yn sicr ddigon, os yw'r hawl ganddo i gael ei gofrestru'n etholwr preswyl, ni all fod hawl ganddo i gael ei gofrestru'n etholwr di-breswyl ar gyfer etholiadau yn yr un rhanbarth.

5

Translation of Form P (form of objection) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950

FFURFLEN GWRTHWYNEBU

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

(Os anfonir y ffurflen hon at y swyddog cofrestru trwy'r post, rhaid talu am y cludiad ymlaen llaw).

1. *Ffurflen gwrthwynebu (etholwyr seneddol)*

At swyddog cofrestru etholaeth.....

Yr wyf trwy hyn o weithred yn eich hysbysu fy mod yn gwrthwynebu cofrestru*

.....

.....

.....

fel etholwr seneddol [yn unol â'r hawl a wneir ar ei ran]†

Sail fy ngwrthwynebiad yw.....

.....

.....

.....

* Rhodder yma'r manylion fel y maent yn y rhestrau etholwyr printiedig, gan nodi'r uned cofrestru, neu'r enw a'r cyfeiriad a roddir gan yr hawlydd.

† I'w ddileu os yn anaddas.

Yr wyf wedi fy nghofrestru ar y rhestr etholwyr fel etholwr seneddol yn yr etholaeth uchod yn y modd a ganlyn*:—

.....

.....

Llofnod.....

Cyfeiriad .....

Dyddiad.....

* Rhodder manylion yma fel y maent yn y rhestrau etholwyr printiedig, gan nodi'r uned cofrestru.

2. *Ffurflen gwrthwynebu (etholwyr llywodraeth leol)*

At swyddog cofrestru.....

Yr wyf trwy hyn o weithred yn eich hysbysu fy mod yn gwrthwynebu cofrestru*

.....

.....

fel etholwr llywodraeth leol [yn yr holl ranbarthau lleol] [yn y rhanbarth [au] lleol canlynol] [yn unol â'r hawl a wneir ar ei ran]†.....

.....

* Rhodder yma'r manylion fel y maent yn y rhestrau etholwyr printiedig, gan nodi'r uned cofrestru, neu'r enw a'r cyfeiriad a roddir gan yr hawlydd.

† I'w ddileu os yn anaddas.

Sail fy ngwrthwynebiad yw.....
.....
.....
.....

Yr wyf wedi fy nghofrestru ar y rhestrau etholwyr llywodraeth leol yn y rhanbarthau uchod yn y modd a ganlyn*.....
.....
Llofnod.....
Cyfeiriad .....
Dyddiad.....

* Rhodder manylion yma fel y maent yn y rhestrau etholwyr printiedig, gan nodi'r uned cofrestru.

6

Translation of Form Q (application to be treated as an absent voter for an indefinite period owing to occupation or physical incapacity) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950

CAIS AM DRINIAETH FEL PLEIDLEISIWR ABSENNOL DROS DYMOR AMHENODOL OHERWYDD GALWEDIGAETH NEU ANALLU CORFFOROL:

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf i, (Cyfenw) .....
(LLYTHYREN FAWR)
(Enwau eraill) .....
yn meddu'r cymhwyster i gael fy nghofrestru yn etholwr yn
(Y Cyfeiriad yn llawn).....
.....

ac yr wyf am ofyn am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol mewn etholiadau seneddol a llywodraeth leol am fy mod yn debyg o fethu mynd yn bersonol i orsaf bleidleisio (heb gynhorthwy oherwydd (*b*) neu (*c*) isod):—

* (*a*) oherwydd natur gyffredinol fy { ngalwedigaeth / ngwasanaeth / ngorchwyl } fel:—

.....

* (*b*) oherwydd dallineb † (a thystiolaeth o hyn yw fy mod wedi fy nghofrestru fel person dall gan Gyngor .....)

* (*c*) oherwydd anallu corfforol (*gweler* nodiad 2).

Llofnod..... Dyddiad.....

Y cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig y dymunir i'r papur pleidleisio gael ei anfon iddo (os yn wahanol i'r cyfeiriad a roddir uchod).

.....
.....

* Dylid dileu'r rhannau sy'n anaddas.

† Os yw'r ymgeisydd heb ei gofrestru fel person dall, dylid dileu'r geiriau sydd mewn cromfachau a gofyn i feddyg gwpláu'r dystysgrif ar gefn y cais.

TYSTYSGRIF

I'w chwpláu gan feddyg cofrestredig os (*b*) neu (*c*) ar y tu arall i'r ddalen yw achos y cais, ac eithrio lle bo'r sawl a wna'r cais wedi ei gofrestru fel person dall.

Tystiaf (1) fod yr haeriad y tu arall i'r ddalen yn gywir; (2) a bod anallu'r ymgeisydd yn debyg o barhau am mis/am gyfnod maith.*

* Mae'n bwysig nodi pa gyfnod sydd addas.

Llofnod.....

Cyfeiriad.....

Dyddiad.....

NODIADAU

1. Os caniateir y cais hwn fe ddeil mewn grym nes eich bod yn ei ddad-wneud neu'n peidio â bod ar y rhestr etholwyr yn rhinwedd byw lle'r ydych ar hyn o bryd yn byw, neu'n cael eich rhoi ar y rhestr yn rhinwedd cymhwyster o fath arall, neu ynteu nes bod swyddog cofrestru etholiadol yn eich hysbysu fod y caniatâd wedi colli ei rym. Fe fydd y cais hwn yn dal i weithredu ymhob etholiad seneddol ac etholiad llywodraeth leol lle y bo gennych hawl i bleidleisio, ac eithrio etholiadau cyngor dosbarth gwledig a chyngor plwyf, sydd heb drefniant i bleidleisio drwy'r post. Rhaid cyflwyno cais gwahanol am bob cyfeiriad gwahanol sydd ag etholfraint yn perthyn iddo.

2. Os o achos dallineb y cyflwynir y cais neu gyflwr methedig corfforol, rhaid cael meddyg i gwpláu'r dystysgrif ar gefn y cais os na fydd yr ymgeisydd wedi ei gofrestru fel person dall.

3. Os o achos eich galwedigaeth y cyflwynir y cais, neu'ch gwasanaeth neu'ch gorchwyl, a chwithau'n debyg o fod ar y môr neu allan o'r Deyrnas Gyfunol ar adeg etholiad, y mae modd ichwi ofyn ar Ffurflen R.P.F. 10 am gael penodi dirprwy i bleidleisio drosoch, ac eithrio achos lle boch yn etholwr di-breswyl.

4. Os ydych wedi'ch penodi'n ddirprwy dros bleidleisiwr lluyddol yn yr un etholaeth seneddol neu'r un rhanbarth mewn etholiad lleol, y mae modd ichwi ofyn ar Ffurflen R.P.F. 11 am gael pleidleisio fel dirprwy drwy'r post, ond ni chewch fod yn ddirprwy i bleidleisio dros arall, os oes dirprwy wedi ei benodi i bleidleisio drosoch chwi.

Gellir cael y ffurflenni y sonnir amdanynt uchod drwy ofyn i'r swyddog cofrestru etholiadol.

5. Os bydd unrhyw newid yn y cyfeiriad y dymunir i'r papur pleidleisio gael ei anfon iddo rhaid rhoi gwybod ar unwaith i'r swyddog cofrestru etholiadol; os oedwch hyd adeg etholiad efallai y bydd yn rhy ddiweddar.

7

Translation of Form R (application to be treated as an absent voter owing to change of residence) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950

CAIS YN GOFYN AM BLEIDLEISIO DRWY'R POST O ACHOS SYMUD I GYFEIRIAD NEWYDD

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf i, (Cyfenw).....
(LLYTHYREN FAWR)
(Enwau eraill).....

yn meddu'r cymhwyster i gael fy nghofrestru yn etholwr yn
(Y cyfeiriad yn llawn)

.....

.....

ac yr wyf am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol mewn etholiadau seneddol gan nad wyf mwyach yn byw yn y cyfeiriad uchod, ond yn awr yn

(Y cyfeiriad newydd).....

.....

Llofnod..... Dyddiad.....

NODIADAU

1. Os caniateir y cais hwn fe ddeil mewn grym ar gyfer pob etholiad seneddol tra pery eich enw ar y Rhestr flaenorol yn rhinwedd eich preswyl blaenorol. Dylid anfon y cais i'r swyddog cofrestru etholiadol dros yr etholaeth lle y ceir y cyfeiriad hwn.

2. NID yw absenoldeb dros dro, e.e., mynd oddi cartref ar wyliau, i'w gyfrif yn newid cyfeiriad i'r diben hwn.

3. Ni chaniateir y cais hwn os yw'r man lle'r ydych yn byw erbyn hyn o fewn yr un ardal â'r man yr ydych wedi'ch cofrestru ar ei gyfer, hynny yw, o fewn yr un fwrdeisdref, neu'r un dosbarth trefol neu blwyf gwledig.

4. Os ydych wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran pleidleisiwr lluyddol, mae modd ichwi ofyn ar Ffurflen R.P.F.11 am bleidleisio drwy'r post i'r diben hwnnw.

5. Fe anfonir eich papur pleidleisio i'r cyfeiriad newydd. Os dymunwch roi gwybod am gyfeiriad newydd arall, rhaid llenwi cais newydd arall ar ffurflen debyg. Ni ellir anfon papur pleidleisio ond i gyfeiriad yn y Deyrnas Gyfunol.

8

Translation of Form S (application to be treated as an absent voter for a particular election) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950

CAIS AM DRINIAETH FEL PLEIDLEISIWR ABSENNOL AT ETHOLIAD ARBENNIG

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf i (Cyfenw).....
(LLYTHYREN FAWR)
(Enwau eraill).....
yn meddu'r cymhwyster i gael fy nghofrestru yn etholwr yn
(Y cyfeiriad yn llawn)

.....

.....

ac yr wyf yn gofyn am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol yn yr etholiad seneddol/llywodraeth leol nesaf (*gweler* Nodiad l) yn.....
(enw'r etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol ar gyfer llywodraeth leol) am fy mod yn debyg o fethu mynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio o achos—

*(*a*) fy ngwasanaeth yn lluoedd cynorthwyol neu gefnlu Ei Mawrhydi, sef .....; * Dylid dileu'r geiriau sy'n amherthnasol.

*(*b*) fy swydd ar ddydd y pleidleisio fel cwnstabl;

*(*c*) fy swydd ar ddydd y pleidleisio yng ngwasanaeth y Swyddog Canlyniadau neu'r Maer ynglŷn â'r etholiad yn.....(enw'r etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol ar gyfer llywodraeth leol);

*(*ch*) fy mod yn gweithredu fel swyddog canlyniadau parthed.....
(enw'r etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol ar gyfer llywodraeth leol);

*(*d*) fy mod i/bod fy ngwraig/ngŵr yn sefyll fel ymgeisydd yn etholaeth .....

Llofnod..... Dyddiad.....

Y Cyfeiriad o fewn y Deyrnas Gyfunol y dymunir i'r papur pleidleisio gael ei anfon iddo (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad uchod).....

NODIADAU

1. Os yr achos yn (*a*) neu (*b*) neu (*c*) yw'r rheswm dros y cais, mae modd gofyn am yr hawl at unrhyw etholiad seneddol neu lywodraeth leol (heblaw etholiad dosbarth gwledig neu gyngor plwyf gan nad oes pleidleisio drwy'r post yn y cyfryw etholiadau). Os yr achos yn (*ch*) yw'r rheswm, y mae modd gwneud y cais at unrhyw etholiad seneddol cyffredinol neu unrhyw etholiad llywodraeth leol cyffredin, (heblaw'r eithriadau sydd wedi eu nodi eisoes). Os yr achos yn (*d*) yw'r rheswm, ni ellir cyflwyno cais ond at etholiad seneddol cyffredinol.

2. Mewn etholiad seneddol (ac yn yr etholiad hwnnw yn unig), os y rheswm dros y cais yw eich bod yn gwasanaethu yn y lluoedd cynorthwyol neu gefnlu Ei Mawrhydi, ac os ydych yn debyg o fod ar y môr neu heb fod o fewn y Deyrnas Gyfunol ar ddydd y pleidleisio, y mae modd ichwi ofyn ar Ffurflen R.P.F.10 am benodi dirprwy i bleidleisio ar eich rhan.

3. Os ydych wedi'ch penodi'n ddirprwy i bleidleisio ar ran pleidleisiwr lluyddol yn yr un etholaeth neu ranbarth etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, mae modd ichwi ofyn ar Ffurflen R.P.F.11 am gael pleidleisio fel dirprwy drwy'r post, ond nid oes modd gwneud hyn os oes dirprwy wedi ei benodi i bleidleisio drosoch chwi.

Y mae'r ffurflenni sydd wedi eu nodi yma i'w cael gan y swyddog cofrestru etholiadol.

9

Translation of Form U (application for appointment of proxy) set out in Schedule 1 to the Representation of the People Regulations 1950

CAIS AM BENODI DIRPRWY

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf i (Cyfenw).....
(LLYTHYREN FAWR)

(Enwau eraill).....
yn meddu'r cymwysterau i gael fy nghofrestru'n etholwr parthed

(Cyfeiriad post llawn).....

Yr wyf wedi gwneud cais am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol—

* Dylid dileu'r geiriau sy'n amherthnasol.

*(*a*) mewn etholiadau seneddol a llywodraeth leol o achos natur gyffredinol fy ngalwedigaeth, fy ngwasanaeth neu fy ngorchwyl;

*(*b*) yn yr etholiad seneddol nesaf yn etholaeth o achos fy ngwasanaeth yn lluoedd cynorthwyol neu gefnlu Ei Mawrhydi,

a datganaf fy mod yn debyg o fod ar y môr ar ddydd y pleidleisio neu allan o'r Deyrnas Gyfunol.

Yr wyf o'r herwydd yn gwneud cais am benodi'r person a enwir isod i fod yn ddewis cyntaf (neu os digwydd ei fod ef neu ei bod hi'n methu gweithredu, y person a enwir fel ail ddewis) i fod yn ddirprwy i bleidleisio drosof.

Y PERSON I'W BENODI'N DDIRPRWY (*gweler* Nodiad 2)

1. Rhaid i'r etholwr lenwi'r rhan yma

Dewis cyntaf:
Enwau llawn.....
Cyfeiriad y post.....
Perthynas, os o gwbl, i'r etholwr .....

2. Dylai'r etholwr lenwi'r rhan yma rhag ofn i'r dewis cyntaf fethu gweithredu	Ail ddewis: Enwau llawn..... Cyfeiriad y post..... Perthynas, os o gwbl, i'r etholwr .....

Llofnod..... Dyddiad.....

NODIADAU

1. Os mai (*a*) uchod yw'r rheswm, fe fydd hawl gan y dirprwy a benodir o ganlyniad i'r cais hwn i bleidleisio ar eich rhan ymhob etholiad seneddol a phob etholiad llywodraeth leol (ac eithrio etholiadau cyngor gwledig neu gyngor plwyf) cyhyd ag y deil eich cais i gael eich trin fel pleidleisiwr absennol mewn grym, os na rowch chwi wybod i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod y penodiad i gael ei ddiddymu. Os mai (*b*) yw'r rheswm, er mwyn pleidleisio mewn etholiad seneddol arbennig yn unig y penodir y dirprwy.

2. Rhaid i'r sawl sy'n ddirprwy fod yn ddeiliad Prydeinig neu'n ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, o oedran cyflawn, a heb fod yn analluog i bleidleisio am resymau cyfreithiol.

Ni chaiff neb mewn etholiad seneddol mewn unrhyw etholaeth bleidleisio fel dirprwy ar ran mwy na dau etholwr heb gyfrif yr etholwyr y mae perthynas deuluol rhyngddo neu rhyngddi a hwynt, yn ŵr neu'n wraig neu'n dad neu'n fam neu'n daid neu'n nain neu'n frawd neu'n chwaer neu'n blentyn neu'n ŵyr.

10

Translation of the form of questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper at an election of a county councillor set out in rule 31(a) of the local elections rules in Schedule 2 to the Representation of the People Act 1949

" (i) Ai chwychi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y modd yma yn rhestr etholwyr llywodraeth leol yn awr mewn grym am y rhanbarth etholiadol hwn . . . . . ? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn dros gynghorwr sir [gynghorwyr sir] am y rhanbarth etholiadol hwn (*gan ychwanegu ynglŷn ag etholiad cyffredinol, neu etholiad cyntaf cynghorwr ychwanegol* neu am unrhyw ranbarth etholiadol arall yn y sir) heblaw fel dirprwy ar ran rhywun arall? "

11

Translation of the form of questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper at an election of a borough councillor set out in rule 31(b) of the local elections rules in Schedule 2 to the Representation of the People Act 1949

" (i) Ai chwychwi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y modd yma yn rhestr etholwyr llywodraeth leol yn awr mewn grym am y fwrdeisdref (ward) yma . . . . . ? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn (*gan ychwanegu ynglŷn ag etholiad mewn nifer o wardiau* yn y ward yma neu unrhyw ward arall) heblaw fel dirprwy ar ran rhywun arall? "

12

Translation of the form of questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper at an election of a county councillor or borough councillor set out in rule 31(c) of the local elections rules set out in the Representation of the People Act 1949

" (i) Ai chwychwi yw'r person sydd a'r enw A.B. yn rhes y dirprwyon at yr etholiad hwn, ac sydd wedi derbyn yr hawl i bleidleisio ar ran C.D.? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu yn rhywle arall yn yr etholiad hwn fel dirprwy ar ran C.D.? "

13

Translation of the form of declaration to be made by the companion of a blind voter at a local government election (counties and boroughs) set out in the Appendix in Schedule 2 to the Representation of the People Act 1949

Yr wyf i A.B. sy'n byw yn . . . . . oherwydd derbyn cais i gynorthwyo C.D. (*lle bo person dall yn pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* trwy fod yn ddirprwy ar ran M.N.) sef rhif . . .yn Rhestr yr Etholwyr ar gyfer llywodraeth leol yn [Rhanbarth Etholiadol . . .yn Sir . . .] [Bwrdeisdref . . .] [Ward . . .o Fwrdeisdref . . .] i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y [Rhanbarth Etholiadol] [Bwrdeisdref] [Ward] uchod, yn datgan drwy hyn o weithred [fod gennyf hawl i bleidleisio fel Etholwr yn yr etholiad hwn] [fy mod yn . . .* . . .i'r pleidleisiwr hwn a'm bod yn un ar hugain mlwydd oed] a'm bod heb gynorthwyo unrhyw berson dall cyn hyn [oddieithr E.F. sy'n byw yn . . .] i bleidleisio yn yr etholiad hwn.

* Dylid dweud sut y mae'r cydymaith yn perthyn i'r pleidleisiwr hynny yw, tad, mam, brawd, chwaer, gŵr, gwraig, mab neu ferch.

(Llofnod) A.B.

Dyddiad.....19...

Yr wyf i, sydd a'm llofnod isod, sef Swyddog Llywyddu yng Ngorsaf Bleidleisio . . .yn [Rhanbarth Etholiadol . . .yn Sir . . .] [Bwrdeisdref . . . . . .] [Ward . . . . .o Fwrdeisdref . . . .], yn tystio drwy hyn o weithred, fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen yng nghlyw'r datganwr a'i fod wedyn wedi rhoi ei enw wrtho yn fy ngŵydd.

(Llofnod) G.H.

Dyddiad . . . . .19 . . Yr amser o'r dydd i'r funud . . . . .

Dalier Sylw.—Y neb a wnêl y datganiad uchod ac a ddywedo anwiredd yn ystyriol ac yn fwriadol ynglŷn ag unrhyw fater o bwys bydd yn euog o drosedd.

14

Translation of Form B (nomination paper at an election of a county councillor) set out in Schedule 1 to the County and Borough Election Forms Regulations 1951

PAPUR ENWEBU

ETHOL CYNGHORWR SIR dros Ranbarth Etholiadol.....

Sir .....

Dyddiad hysbysu'r etholiad.....

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ac sy'n etholwyr llywodraeth leol am y rhanbarth etholiadol a enwyd, drwy'r weithred hon yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

Cyfenw'r Ymgeisydd	Yr Enwau Eraill yn llawn	Cyfeiriad Ei Gartref	Disgrifiad

Llofnod	Rhif Etholiadol (*gweler* nodiad 3)
Cynigydd	.....
Eilydd	.....
Yr ydym ni sydd a'n henwau yma ac sy'n etholwyr yn yr etholaeth a enwir uchod yn cytuno drwy hyn o weithred â'r enwebiad hwn.	
1.	.....
2.	.....
3.	.....
4.	.....
5.	.....
6.	.....
7.	.....
8.	.....

NODIADAU

1.—Gelwir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau gogyfer a llenwi papurau enwebu ac amodau eraill perthynol i enwebu a geir yn y rheolau'n ymwneud ag etholiadau lleol yn yr Ail Atodiad i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1949.

2.—Os bydd ymgeisydd yn adnabyddus wrth ryw deitl bydd hawl i'w ddynodi wrth y teitl hwnnw fel petai'n gyfenw iddo.

3.—Rhif etholiadol person yw'r rhif sydd ganddo yn y rhestr enwau ddarparedig i'r etholiad (ynghyda'r llythyren neu'r llythrennau gwahaniaethol a ddengys y rhanbarth lle y mae ei bleidlais mewn etholiad seneddol) ond os bydd y rhestr enwau heb ei chyhoeddi ar y pryd dylid defnyddio'r rhif sydd ganddo (os oes un o gwbl) yn y rhestrau etholwyr sy'n sail i'r rhestr enwau ddarparedig.

4.—Ni chaiff etholwr roi ei enw wrth fwy nag un papur enwebu sy'n cyfeirio at yr un rhanbarth etholiadol.

5.—Os digwydd i ddydd pleidleisio etholiad ddisgyn ar ôl y 15fed o Chwefror a chyn yr ail o Hydref bydd y sawl sydd a'r llythyren "Y" wrth ei enw yn y rhestr enwau ar gyfer yr etholiad hwnnw heb hawl i roi ei enw wrth bapur enwebu.

15

Translation of Form B (nomination paper at an election of a borough councillor or elective auditor) set out in Schedule 2 to the County and Borough Election Forms Regulations 1951

PAPUR ENWEBU

ETHOL [CYNGHORWYR] [ARCHWILWYR ETHOLADWY] dros [Ward.....o]
Fwrdeisdref.....
Dyddiad Hysbysu'r Etholiad .....

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ac sy'n etholwyr llywodraeth leol am y [Ward] [Fwrdeisdref] a enwyd, drwy'r weithred hon yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

Cyfenw'r Ymgeisydd	Yr Enwau Eraill yn llawn	Cyfeiriad Ei Gartref	Disgrifiad

Llofnod	Rhif Etholiadol (*gweler* nodiad 3)
Cynigydd	.....
Eilydd	.....
Yr ydym ni sydd a'n henwau yma ac sy'n etholwyr yn yr etholaeth a enwir uchod yn cytuno drwy hyn o weithred â'r enwebiad hwn.	
1.	.....
2.	.....
3.	.....
4.	.....
5.	.....
6.	.....
7.	.....
8.	.....

NODIADAU

1.—Gelwir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau gogyfer â llenwi papurau enwebu ac amodau eraill perthynol i enwebu a geir yn y rheolau'n ymwneud ag etholiadau lleol yn yr Ail Atodiad i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1949.

2.—Os bydd ymgeisydd yn adnabyddus wrth ryw deitl bydd hawl i'w ddynodi wrth y teitl hwnnw fel petai'n gyfenw iddo.

3.—Rhif etholiadol person yw'r rhif sydd ganddo yn y rhestr enwau ddarparedig i'r etholiad (ynghyda'r llythyren neu'r llythrennau gwahaniaethol a ddengys y rhanbarth lle y mae ei bleidlais mewn etholiad seneddol); ond os bydd y rhestr enwau heb ei chyhoeddi ar y pryd dylid defnyddio'r rhif sydd ganddo (os oes un o gwbl) yn y rhestrau etholwyr sy'n sail i'r rhestr enwau ddarparedig.

4.—Ni chaiff etholwr—

(*a*) roi ei enw wrth fwy o bapurau enwebu nag sydd o leoedd gweigion i'w llanw yn y rhanbarth etholiadol; neu

(*b*) roi ei enw wrth bapur enwebu dros fwy nag un ward o fwrdeisdref a rannwyd yn wardiau; neu

(*c*) roi ei enw wrth fwy nag un o bapurau enwebu yn cyfeirio at yr un ymgeisydd.

5.—Os digwydd i ddydd pleidleisio etholiad ddisgyn ar ôl y 15fed o Chwefror a chyn yr ail o Hydref bydd y sawl sydd a'r llythyren "Y" wrth ei enw yn y rhestr enwau ar gyfer yr etholiad hwnnw heb hawl i roi ei enw wrth bapur enwebu.

16

Translation of the form of declaration of secrecy set out in rule 27(4) of the election rules in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951

"Addawaf a datganaf yn ddifrifddwys na wnaf ddim yn yr Etholiad hwn dros [Ward . . .o] Ddosbarth Trefol , sydd yn waharddedig yn ôl is-adrannau 1, 2, 3, a 6 o adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1949 sydd wedi eu darllen yn fy nghlyw."

17

Translation of the form of questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper set out in rule 31(1)(a) of the election rules in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951

"(i) Ai chwychwi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y modd yma yn rhestr etholwyr llywodraeth leol yn awr mewn grym am y dosbarth trefol hwn, neu'r [Ward] hon?"

"(ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio [*gan ychwanegu ynglŷn ag etholiad mewn nifer o wardiau* yma neu mewn unrhyw Ward arall] yn yr etholiad presennol, heblaw fel dirprwy ar ran rhywun arall?"

18

Translation of the form of questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper set out in rule 31(1)(b) of the election rules in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951

"(i) Ai chwychwi yw'r person sydd a'r enw A.B. yn rhes y dirprwyon at yr etholiad hwn, ac sydd wedi derbyn yr hawl i bleidleisio ar ran C.D.?"

"(ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio, yma neu yn rhywle arall yn yr etholiad presennol, fel dirprwy ar ran C.D.?"

19

Translation of the form of nomination paper set out in the Appendix in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951

PAPUR ENWEBU

ETHOL CYNGHORWYR DOSBARTH TREFOL dros [Ward.....o]

Ddosbarth Trefol..... .....

Dyddiad hysbysu'r etholiad.....

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ac sy'n etholwyr llywodraeth leol am y [Ward] [Dosbarth Trefol] a enwyd, drwy'r weithred hon yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

Cyfenw'r Ymgeisydd	Yr Enwau Eraill yn llawn	Cyfeiriad Ei Gartref	Disgrifiad

Llofnod	Rhif Etholiadol (*gweler* nodiad 3)
Cynigydd	.....
Eilydd	.....
Yr ydym ni sydd a'n henwau yma ac sy'n etholwyr yn yr etholaeth a enwir uchod yn cytuno drwy hyn o weithred â'r enwebiad hwn.	
1.	.....
2.	.....
3.	.....
4.	.....
5.	.....
6.	.....
7.	.....
8.	.....

NODIADAU

1.—Gelwir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau gogyfer â llenwi papurau enwebu ac amodau eraill perthynol i enwebu a geir yn y rheolau'n ymwneud ag etholiadau yn yr Atodiad Cyntaf o Reolau Etholiad Dosbarth Trefol 1951.

2.—Os bydd ymgeisydd yn adnabyddus wrth ryw deitl bydd hawl i'w ddynodi wrth y teitl hwnnw fel petai'n gyfenw iddo.

3.—Rhif etholiadol person yw'r rhif sydd ganddo yn y rhestr enwau ddarparedig i'r etholiad (ynghyda'r llythyren neu'r llythrennau gwahaniaethol a ddengys y rhanbarth lle y mae ei bleidlais mewn etholiad seneddol: ond os bydd y rhestr enwau heb ei chyhoeddi ar y pryd dylid defnyddio'r rhif sydd ganddo (os oes un o gwbl) yn y rhestrau etholwyr sy'n sail i'r rhestr enwau ddarparedig.

4.—Ni chaiff etholwr—

(*a*) roi ei enw wrth fwy o bapurau enwebu nag sydd o leoedd gweigion i'w llanw yn y rhanbarth etholiadol; neu

(*b*) roi ei enw wrth bapur enwebu dros fwy nag un ward o ddosbarth trefol a rannwyd yn wardiau; neu

(*c*) roi ei enw wrth fwy nag un o bapurau enwebu yn cyfeirio at yr un ymgeisydd.

5.—Os digwydd i ddydd pleidleisio etholiad ddisgyn ar ôl y 15fed o Chwefror a chyn yr ail o Hydref bydd y sawl sydd a'r llythyren " Y " wrth ei enw yn y rhestr enwau ar gyfer yr etholiad hwnnw heb hawl i roi ei enw wrth bapur enwebu.

20

Translation of the form of declaration to be made by the companion of a blind voter set out in the Appendix in Schedule 1 to the Urban District Council Election Rules 1951

Yr wyf i A.B. sy'n byw yn.....oherwydd derbyn cais i gynorthwyo C.D. [*lle bo person dall yn pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* trwy fod yn ddirprwy ar ran G.H.] sef rhif.....yn Rhestr yr Etholwyr ar gyfer llywodraeth leol yn [Ward.....o] Ddosbarth Trefol.....i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y [Ward] [Dosbarth Trefol] uchod, yn datgan drwy hyn o weithred [fod gennyf hawl i bleidleisio fel Etholwr yn yr etholiad hwn] [fy mod yn.....*...] i'r pleidleisiwr hwn a'm bod yn un ar hugain mlwydd oed a'm bod heb gynorthwyo unrhyw berson dall cyn hyn [oddieithr E.F. sy'n byw yn.....] i bleidleisio yn yr etholiad hwn.

* Dylid dweud sut y mae'r cydymaith yn perthyn i'r pleidleisiwr, hynny yw, tad, mam, brawd, chwaer, gŵr, gwraig, mab neu ferch.

(Llofnod) A.B.

Dyddiad.....19....

Yr wyf i sydd a'm llofnod isod, sef Swyddog Llywyddu yn yr Orsaf Bleidleisio dros [Ward.....o] Ddosbarth Trefol.....yn tystio drwy hyn o weithred, fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen yng nghlyw'r datganwr a'i fod wedyn wedi rhoi ei enw wrtho yn fy ngŵydd.

(Llofnod) X.Y.

Dyddiad.....19.....Yr amser o'r dydd i'r funud.....

DALIER SYLW.—Y neb a wnêl y datganiad uchod ac a ddywedo anwiredd yn ystyriol ac yn fwriadol ynglŷn ag unrhyw fater o bwys bydd yn euog o drosedd.

21

Translation of the form of declaration of secrecy set out in rule 26(4) of the election rules in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951

"Addawaf a datganaf yn ddifrifddwys na wnaf ddim yn yr Etholiad hwn dros Ranbarth Etholiadol yn Nosbarth Gwledig sydd yn waharddedig yn ôl is-adrannau 1, 2, 3 a 6 o adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1949 sydd wedi eu darllen yn fy nghlyw."

22

Translation of the form of questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper set out in rule 30(1)(a) of the election rules in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951

" (i) Ai chwychwi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y modd yma yn rhestr etholwyr llywodraeth leol yn awr mewn grym am y rhanbarth etholiadol hwn? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio [*gan ychwanegu ynglŷn â nifer o ranbarthau etholiadol eraill* yma neu mewn unrhyw ranbarth etholiadol arall] yn yr etholiad presennol heblaw fel dirprwy ar ran rhywun arall ? "

23

Translation of the form of questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper set out in rule 30(1)(b) of the election rules in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951

" (i) Ai chwychwi yw'r person sydd a'r enw A.B. yn rhes y dirprwyon at yr etholiad hwn, ac sydd wedi derbyn yr hawl i bleidleisio ar ran C.D.? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu yn rhywle arall yn yr etholiad presennol fel dirprwy ar ran C.D.? "

24

Translation of the form of nomination paper set out in the Appendix in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951

PAPUR ENWEBU

ETHOL CYNGHORWYR DOSBARTH GWLEDIG dros [Ward.....o blwyf.....]

[Plwyf.....] [Plwyfi Cyfunol.....] yn Nosbarth Gwledig.....

Dyddiad hysbysu'r etholiad.....

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ac sy'n etholwyr llywodraeth leol am y [Ward] [Plwyf] [Plwyfi Cyfunol] a enwyd, drwy'r weithred hon yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

Cyfenw'r Ymgeisydd	Yr Enwau Eraill yn llawn	Cyfeiriad Ei Gartref	Disgrifiad

Llofnod	Rhif Etholiadol (*gweler* nodiad 3)
Cynigydd.....	.....
Eilydd	.....

NODIADAU

1.—Gelwir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau gogyfer â llenwi papurau enwebu ac amodau eraill perthynol i enwebu a geir yn y rheolau'n ymwneud ag etholiadau yn yr Atodiad Cyntaf o Reolau Etholiad Dosbarth Gwledig 1951.

2.—Os bydd ymgeisydd yn adnabyddus wrth ryw deitl bydd hawl i'w ddynodi wrth y teitl hwnnw fel petai'n gyfenw iddo.

3.—Rhif etholiadol person yw'r rhif sydd ganddo yn y rhestr enwau ddarparedig i'r etholiad (ynghyda'r llythyren neu'r llythrennau gwahaniaethol a ddengys y rhanbarth lle y mae ei bleidlais mewn etholiad seneddol) ond os bydd y rhestr enwau heb ei chyhoeddi ar y pryd dylid defnyddio'r rhif sydd ganddo (os oes un o gwbl) yn y rhestrau etholwyr sy'n sail i'r rhestr enwau ddarparedig.

4.—Ni chaiff etholwr—

(*a*) roi ei enw wrth fwy o bapurau enwebu nag sydd o leoedd gweigion i'w llanw yn y rhanbarth etholiadol; neu

(*b*) roi ei enw wrth bapur enwebu dros fwy nag un rhanbarth etholiadol o ddosbarth gwledig; neu

(*c*) roi ei enw wrth fwy nag un o bapurau enwebu yn cyfeirio at yr un ymgeisydd.

5.—Os digwydd i ddydd pleidleisio etholiad ddisgyn ar ôl y 15fed o Chwefror a chyn yr ail o Hydref bydd y sawl sydd a'r llythyren "Y" wrth ei enw yn y rhestr enwau ar gyfer yr etholiad hwnnw heb hawl i roi ei enw wrth bapur enwebu.

25

Translation of the form of declaration to be made by the companion of a blind voter set out in the Appendix in Schedule 1 to the Rural District Council Election Rules 1951

Yr wyf i A.B. sy'n byw yn.....oherwydd derbyn cais i gynorthwyo C.D. [*lle bo person dall yn pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* trwy fod yn ddirprwy ar ran G.H.] sef rhif.....yn Rhestr yr Etholwyr ar gyfer llywodraeth leol, yn Rhanbarth Etholiadol.....dros Gyngor Gwledig.....

i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y Rhanbarth Etholiadol uchod, yn datgan drwy hyn o weithred [fod gennyf hawl i bleidleisio fel Etholwr yn yr etholiad hwn] [fy mod yn* ...i'r pleidleisiwr hwn a'm bod yn un ar hugain mlwydd oed] a'm bod heb gynorthwyo unrhyw berson dall cyn hyn [oddieithr E.F. sy'n byw yn.....] i bleidleisio yn yr etholiad hwn.

* Dylid dweud sut y mae'r cydymaith yn perthyn i'r pleidleisiwr, hynny yw, tad, mam, brawd, chwaer, gŵr, gwraig, mab neu ferch.

(Llofnod) A.B.

Dyddiad.....19....

Yr wyf i, sydd a'm llofnod isod, sef Swyddog Llywyddu yng Ngorsaf Bleidleisio.....yn Rhanbarth Etholiadol.....dros Gyngor Gwledig..... ....., yn tystio drwy hyn o weithred, fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen yng nghlyw'r datganwr a'i fod wedyn wedi rhoi ei enw wrtho yn fy ngŵydd.

(Llofnod) X.Y.

Dyddiad.....19.... Yr amser o'r dydd i'r funud.....

DALIER SYLW.—Y neb a wnêl y datganiad uchod ac a ddywedo anwiredd yn ystyriol ac yn fwriadol ynglŷn ag unrhyw fater o bwys bydd yn euog o drosedd.

26

Translation of the form of declaration of secrecy set out in rule 26(4) of the election rules in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952

"Addawaf a datganaf yn ddifrifddwys na wnaf ddim yn yr Etholiad hwn dros [Ward.....o] Blwyf sydd yn waharddedig yn ôl is-adrannau 1, 2, 3 a 6 o adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1949 sydd wedi eu darllen yn fy nghlyw."

27

Translation of the form of questions to be put to a person applying as an elector for a ballot paper set out in rule 30(1)(a) of the election rules in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952

" (i) Ai chwychwi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y modd yma yn rhestr etholwyr llywodraeth leol yn awr mewn grym am y plwyf hwn [neu'r Ward hon]? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio [*gan ychwanegu ynglŷn ag etholiad mewn nifer o wardiau* yma neu mewn unrhyw Ward arall] yn yr etholiad presennol heblaw fel dirprwy ar ran rhywun arall ? "

28

Translation of the form of questions to be put to a person applying as proxy for a ballot paper set out in rule 30(1)(b) of the election rules in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952

" (i) Ai chwychwi yw'r person sydd a'r enw A.B. yn rhes y dirprwyon at yr etholiad hwn, ac sydd wedi derbyn yr hawl i bleidleisio ar ran C.D.? "

" (ii) A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu yn rhywle arall yn yr etholiad presennol fel dirprwy ar ran C.D.? "

29

Translation of the form of nomination paper set out in the Appendix in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952

PAPUR ENWEBU

ETHOL CYNGHORWYR PLWYF dros [Ward.....] Blwyf.....
Dyddiad hysbysu'r etholiad.....

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ac sy'n etholwyr llywodraeth leol am y [Ward] [Plwyf] a enwyd, drwy'r weithred hon yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

Cyfenw'r Ymgeisydd	Yr Enwau Eraill yn llawn	Cyfeiriad Ei Gartref	Disgrifiad

Llofnod	Rhif Etholiadol (*gweler* nodiad 3)
Cynigydd	.....
Eilydd	.....

NODIADAU

1.—Gelwir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau gogyfer â llenwi papurau enwebu ac amodau eraill perthynol i enwebu a geir yn y rheolau'n ymwneud ag etholiadau yn yr Atodiad Cyntaf o Reolau Etholiad Plwyf 1952.

2.—Os bydd ymgeisydd yn adnabyddus wrth ryw deitl bydd hawl i'w ddynodi wrth y teitl hwnnw fel petai'n gyfenw iddo.

3.—Rhif etholiadol person yw'r rhif sydd ganddo yn y rhestr enwau ddarparedig i'r etholiad (ynghyda'r llythyren neu'r llythrennau gwahaniaethol a ddengys y rhanbarth lle y mae ei bleidlais mewn etholiad seneddol) ond os bydd y rhestr enwau heb ei chyhoeddi ar y pryd dylid defnyddio'r rhif sydd ganddo (os oes un o gwbl) yn y rhestrau etholwyr sy'n sail i'r rhestr enwau ddarparedig.

4.—Ni chaiff etholwr—

(*a*) roi ei enw wrth fwy o bapurau enwebu nag sydd o leoedd gweigion i'w llanw yn y rhanbarth etholiadol; neu

(*b*) roi ei enw wrth bapur enwebu dros fwy nag un ward o blwyf a rannwyd yn wardiau; neu

(*c*) roi ei enw wrth fwy nag un o bapurau enwebu yn cyfeirio at yr un ymgeisydd.

5.—Bydd y sawl sydd a'r llythyren " Y " wrth ei enw yn y rhestr enwau ar gyfer yr etholiad, heb hawl i roi ei enw wrth bapur enwebu.

30

Translation of the form of declaration to be made by the companion of a blind voter set out in the Appendix in Schedule 1 to the Parish Council Election Rules 1952

Yr wyf i A.B. sy'n byw yn.....oherwydd derbyn cais i gynorthwyo C.D. [*lle bo person dall yn pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* trwy fod yn ddirprwy ar ran G.H.] sef rhif.....yn Rhestr yr Etholwyr ar gyfer llywodraeth leol dros [Blwyf.....] [Ward.....o Blwyf.....] i roi ei bleidlais yn yr etholiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y [plwyf] [ward] uchod, yn datgan drwy hyn o weithred [fod gennyf hawl i bleidleisio fel Etholwr yn yr etholiad hwn] [fy mod yn * i'r pleidleisiwr hwn a'm bod yn un ar hugain mlwydd oed] a'm bod heb gynorthwyo unrhyw berson dall cyn hyn [oddieithr E.F. sy'n byw yn.....] i bleidleisio yn yr etholiad hwn.

* Dylid dweud sut y mae'r cydymaith yn perthyn i'r pleidleisiwr, hynny yw, tad, mam, brawd, chwaer, gŵr, gwraig, mab neu ferch.

(Llofnod) A.B.

Dyddiad.....19....

Yr wyf i, sydd a'm llofnod isod, sef Swyddog Llywyddu yng Ngorsaf Bleidleisio dros [Blwyf.....] [Ward..... o Blwyf.....] yn tystio drwy hyn o weithred, fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen yng nghlyw'r datganwr a'i fod wedyn wedi rhoi ei enw wrtho yn fy ngŵydd.

(Llofnod) X.Y.

Dyddiad.....19... Yr amser o'r dydd i'r funud.....

DALIER SYLW.—Y neb a wnêl y datganiad uchod ac a ddywedo anwiredd yn ystyriol ac yn fwriadol ynglŷn ag unrhyw fater o bwys bydd yn euog o drosedd.

EXPLANATORY NOTE

(This Note is not part of the Regulations, but is intended to indicate their general purport.)

These Regulations prescribe translations into the Welsh language of the electoral forms mentioned at the head of the Schedule.